**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **22 Hydref, 2009** |
| **TEITL** | **Cynllun Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru a Chynllun Cludiant Rhanbarthol Canolbarth Cymru** |
| **PWRPAS** | **Rhoi Gwybod i Aelodau Am Gynnwys Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru a gofyn i'r Cyngor Gymeradwyo'r Dogfennau** |
| **ARGYMHELLIAD** | **i) Bod y Cyngor Llawn yn mabwysiadau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru.** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd W Gareth Roberts** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006 (fel y cafodd ei ddiwygio gan Orchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygiad) 2008 a Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) (Diwygiad) 2009 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynhyrchu cynlluniau cludiant lleol yn unol ag adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

1.2 Y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r fersiwn derfynol o'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol (CCRh) yw 31 Rhagfyr 2009. Y dyddiad cau y cytunwyd arno rhwng CLlLC a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflwyno'r CCRh oedd 30 Medi 2009.

1.3 Mae'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, sy'n rhan o gonsortiwm cludiant TAITH wedi gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu'r CCRh. Mae tri awdurdod lleol canolbarth Cymru sy'n rhan o gonsortiwm TraCC yn cydweithiol yn yr un modd ar gynllun Trafnidiaeth y Canolbarth. Mae yna ddau gonsortiwm cludiant arall yng Nghymru sydd hefyd yn paratoi dogfennau tebyg.

1.4 Mae copïau dwyieithog o'r Crynodebau Gweithredol ynghlwm fel "Atodiad 1" ac "Atodiad 2". Mae copïau o fersiwn saesneg lawn y ddogfen ar gael yn Lolfa'r Aelodau ac mae un o'r awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru wrthi'n cyfieithu'r ddogfen i'r Gymraeg.

1.5 Dylai'r Cyngor nodi nad yw Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ymdrin ag ardal Meirionnydd o ardal Cyngor Gwynedd. Cynllun Rhanbarthol Canolbarth Cymru, sydd yn cynnwys ardal Meirionnydd. Mae Gwynedd yn unigryw yng Nghymru yn gorfod cyfrannu at baratoad dogfennau fel rhan o ddau gonsortiwm trafnidiaeth.

## 2. GWYBODAETH GEFNDIR

### 2.1 Datblygiadau hyd yma – TAITH (Gogledd Cymru)

2.1.1 Ymgynghorwyd ar y dogfennau CCRh drafft ac fe'u craffwyd gan Pwyllgor yr Amgylchedd ar 16 Medi 2008.

2.1.2 Cymeradwyodd Bwrdd TAITH y Cynllun Cludiant Rhanbarthol Amodol ar 12 Rhagfyr, 2008 a chyflwynwyd y ddogfen yn ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 30 Rhagfyr, 2008.

2.1.3 Cafwyd sylwadau ar y cyflwyniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mawrth 2009. Cafwyd trafodaethau helaeth gyda Chynllunydd Cludiant Rhanbarthol y Cynulliad ynghylch hynny a sylwadau anffurfiol eraill i sicrhau bod y Cynllun Cludiant Rhanbarthol yn cwrdd â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### 2.2 Datblygiadau hyd yma – TraCC (Canolbarth Cymru)

2.2.1 Ymgynghorwyd ar y dogfennau CCRh drafft ac fe'u craffwyd gan Pwyllgor yr Amgylchedd ar 7 Tachwedd 2008.

2.2.2 Cymeradwyodd Bwrdd TraCC y Cynllun Cludiant Rhanbarthol Amodol ar 5 Rhagfyr, 2008 a chyflwynwyd y ddogfen yn ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 30 Rhagfyr, 2008.

2.2.3 Cafwyd sylwadau ar y ddogfen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mawrth 2009. Cafwyd trafodaethau helaeth gyda Chynllunydd Cludiant Rhanbarthol y Cynulliad ynghylch hynny a sylwadau anffurfiol eraill i sicrhau bod y Cynllun Cludiant Rhanbarthol yn cwrdd â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### 2.3 Cynllun Cludiant Cenedlaethol

2.3.1 Cafodd fersiwn ymgynghorol y Cynllun Cludiant Cenedlaethol (CCC) ei ryddhau cyn i'r Senedd gymryd egwyl dros yr haf yng nghanol mis Gorffennaf gyda golwg ar ei fabwysiadau erbyn 31 Rhagfyr 2009.

2.3.2 Mae swyddogion wedi adolygu'r ddogfen ac wedi gwneud diwygiadau priodol i'r CCRh ar y cyd gydag awdurdodau eraill. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae TAITH a TraCC wedi paratoi ymateb ymgynghorol i'r CCC.

### 2.4 Cyllid a'r Rhaglen 5 mlynedd

2.4.1 Mae trafodaethau wedi bod yn parhau rhwng CLlLC. Consortia Cludiant a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y trefniadau cyllido ar gyfer y broses Cynllun Cludiant Rhanbarthol i'r dyfodol.

2.4.2 Un mater fu yn rhan o'r ystyriaethau hyd yma yw sut y byddai'r cynlluniau cyfredol y gwnaed ymrwymiad iddynt yn cael eu trin yn y system Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol.

2.4.3 Cytunwyd ar 5 o gynlluniau ffordd allweddol ar lefel genedlaethol a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses ar gyfer y Cynllun Cludiant Rhanbarthol. O'r pum cynllun, mae dau ohonynt yn ardal TAITH, sef:-

- Ffordd Fynediad i Borthladd Caergybi (Estyniad ar yr A55 )
- Ffordd Fynediad i Stad Ddiwydiannol Wrecsam

ac un yn ardal TraCC, sef:

- Lôn Gyswllt, De Ceredigion

2.4.4 Cynigiwyd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn tynnu'r costau hyn o gyllideb y consortia dros y blynyddoedd nesaf.

2.4.5 Cyfarfu cynrychiolwyr y pedwar consortiwm i drafod y fethodoleg ar gyfer penderfynu sut byddai gweddill y gyllideb yn cael ei rhannu. Ar ôl llawer o drafodaeth, 'roedd y pedwar consortiwm yn unfrydol ynghylch y fformiwla a ddefnyddid i rannu'r cyllid.

2.4.6 Cytunwyd i ddefnyddio fformiwla'r Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol fel sail ar gyfer dyrannu'r gyllideb. Yn achos TAITH byddai hynny'n golygu dyraniad o 22.4%. Mae hyn yn cymharu'n dda gyda'r dyraniad a gafodd TAITH yn y gorffennol, sef 18.7% rhwng 2001/02 a 2009/10.

2.4.7 Yn achos TraCC, byddai hyn yn golygu dyraniad o 13.7%.

2.4.8 Bydd y fformiwla dyrannu gychwynnol yn dod i rym ym mis Ebrill 2010 ac yn parhau am dair blwyddyn ariannol ar sail interim. Cyn cychwyn y bedwaredd flwyddyn yng nghyfnod y Cynllun Cludiant Rhanbarthol, cynhelir adolygiad llawn o'r mecanweithiau cyllido i sefydlu trefniadau mwy parhaol. Byddai'r trefniadau interim yn rhoi amser i ddatblygu meini prawf cadarn ar gyfer penderfynu sut i ddyrannu'r arian yn y dyfodol, wedi eu cysylltu i amcanion yn y CCRh a data ar gyfer ardal y consortiwm priodol.

2.4.9 Mae crynodeb arwyddol o'r proffil ariannol am bum mlynedd wedi ei gynnwys yn y Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol (Tud 71) yn nogfen TAITH. Mae'r grynodeb yn rhagdybio llinell gyllideb gyson o £100m ar gyfer Grant Cludiant dros y 5 mlynedd nesaf a chan gymryd hefyd y bydd y pum prosiect a ymrwymwyd yn cychwyn ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

2.4.10 Bydd y Cyngor yn nodi bod cyllideb y consortia yn weddol fychan ar y dechrau ac y bydd yn tyfu dros amser wrth i'r cynlluniau ymrwymwyd iddynt gael eu cwblhau. Mae yna nifer o ffactorau yn y dadansoddiad hwn a allai newid y sefyllfa - gan gynnwys prosiectau yn cychwyn ar amser ac yn unol â'r gyllideb a lefel y cyllid a ddyrennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

2.4.11 Mae grwpiau rhaglen (Grŵp o'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Swyddog Gweithredol) wedi rhoi sylw i'r gwaith rhaglennu a blaenoriaethu sydd ei angen ar ran TAITH a TraCC er cwblhau'r tri opsiwn strategol sef yr Opsiwn a Ffefrir, y Dewis Arall Gorau a'r Opsiwn Gwneud y Lleiafswm. Mae y Grŵp Cyfarwyddwyr Strategol Gogledd Cymru wedi adolygu hyn ar gyfer y cyfarfod nesaf o fwrdd TAITH. Mae'r gwaith o raglennu a blaenoriaethu ar gyfer TraCC wedi dilyn proses sydd yn adlewyrchu'r trefniant yma.

## 3. GWYBODAETH YCHWANEGOL

3.1 Hysbysir yr aelodau bod Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn cynnwys rhaglen gyfalaf 5 mlynedd wedi cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo, gan Fwrdd TAITH ar 11 Medi 2009.

3.2 Cafodd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru a'r rhaglen 5 mlynedd eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan Fwrdd TraCC ar 4 Medi 2009.

3.3 Amgaeir rhestr o gynlluniau sy'n berthnasol i Wynedd sydd yn cael eu cynnig yng Nghynlluniau Cludiant Rhanbarthol Gogledd a Chanolbarth Cymru fel Atodiad 3 ac Atodiad 4.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Cyngor yn mabwysiadau y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

---

A. Barn yr Aelod Lleol:

---

B. Barn y Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr:

"Mae'r gwaith hwn yn amlwg yn ffrwyth gwaith cyd-weithio a chyd-drafod helaeth iawn a mae'n amlwg bod cytundeb rhwng yr awdurdodau ar y cynigion sydd gerbron. Mae i hyn oblygiadau i'r sir o ran y cynlluniau sydd yn cael eu nodi yn Atodiadau 3 a 4 i'r adroddiad. Argymhellir bod y Bwrdd yn cymeradwyo mabwysiadu'r Cynllun."

2. Swyddog Monitro:

"Mae'n ofyn statudol i Gynllun Trafnidiaeth Lleol gael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, ond nid oes materion eraill o briodoldeb yn codi."

3. Prif Swyddog Cyllid:

"Nodaf, o ran 2.4.5 – 2.4.6 o adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio fod y pedwar consortiwm yng Nghymru wedi cytuno i ddefnyddio fformiwla'r Grant Trafnidiaeth fel sail ar gyfer dyrannu arian rhyngddynt. Diau fydd angen i'r consortia a Llywodraeth Cynulliad Cymru ffurfioli hynny cyn gweithredu o Ebrill 2010. Fodd bynnag, rwy'n cefnogi'r argymhelliad i'r Bwrdd / Cyngor llawn gymeradwyo'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol."

C. Papurau Cefndir:

CH. Goblygiadau Polisi: